
# Darganfod
# Nercwys



# Croeso i Nercwys



Mae gan y pentref tawel hwn sydd ar gyrion Bryniau Clwyd hanes cyfoethog ac amrywiol. Cafodd y tir ei drin am filoedd o flynyddoedd, ers i'r teuluoedd Cynhanes ddechrau torri'r coed a sefydlu treflannau syml. Daeth pobl yma am y pridd cyfoethog a'r cyflenwad o ddŵr o'r ffynhonnau niferus ac o'r Afon Terrig. Hyd heddiw, ffermio yw'r prif ddull o ddefnyddio'r tir.



Yn y 19eg roedd yr ardal hon yn ardal ddiwydiannol hefyd, ac iddi nifer o fwyngloddiau plwm a phyllau glo. Roedd y tir yn frith o olwynion pyllau, gweithfeydd brics, adeiladau mwyngloddio, a thomennydd baw. Ceir rhai olion y gorffennol diwydiannol hyd heddiw, wedi'u cuddio dan y tyfiant neu'n cael eu defnyddio at ryw bwrpas gwahanol.




Tyfodd y pentref yn gyflym iawn yn ystod Oes Fictoria. Roedd y boblogaeth ar ei huchaf yn y 1870au pan roedd cynifer o'r trigolion yn gweithio yn y diwydiannau ag ar y tir. Adeiladwyd nifer o resi o dai brics fel Church View, Fron Heulog, School Terrace a New Terrace. Adeiladwyd ysgol newydd yn y cyfnod yma, a ffynnodd y siopau lleol a'r tafarnau. Cafodd Eglwys y Santes Fair ei hadfer a sefydlwyd capeli. Amrywiai'r tai o fythynnod syml yn swatio yng nghesail y bryn a thai teras clos yng nghanol y pentref, i ffermydd a chartrefi urddasol y bonedd.



Bu'r iaith Gymraeg o bwys yn y pentref erioed, yn famiaith y ffermwyr a'r mwyngloddwyr. Yn y ddeunawfed ganrif, yn y Gymraeg y cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau yn yr eglwys. Erbyn 1874 cynhaliwyd gwasanaethau yn y ddwy iaith, ond roedd mwyafrif y gynulleidfa'n mynychu'r gwasanaeth Cymraeg. Mae capel Soar yn dal i ffynnu yn rhan hanfodol o'r gymuned ac yn cynnal nifer o ddigwyddiadau. Mae niferoedd y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi, ac yn sylweddol uwch na'r rhan fwyaf o bentrefi Sir y Fflint.

Ar hyd a lled caeau'r plwyf ceir rhwydwaith o lwybrau troed, a fu unwaith yn llwybrau'r mwynwyr a'r gweithwyr fferm oedd yn cerdded i'r gwaith, ac sydd erbyn heddiw yn ffordd wych o weld y cefn gwlad tawel a deniadol sydd yma.

Yn yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, daeth nifer fawr o newidiadau i'r pentref gan gynnwys tai cyfoes ar gyfer yr henoed a thai i bobl sy'n teithio i leoedd eraill i weithio. Ond mae Nercwys yn dal i gadw ei naws wledig ac mae'r gymuned yn dal i ffynnu.




**Ysgrifennu ac ymchwil:** Lorna Jenner a Ray Davies
**Dylunio:** William Smuts
**Argraffu:** Design and Print 01352 704000
**Hen ffotografffau:** Ross Cameron, Ray Davies, Archifdy Sir y Fflint, Glyn Hughes, Ray Roberts, Meinir Shiel
**Ffotograffiaeth y bywyd gwyllt:** Simon Booth, AHNE Bryniau Clwyd, Steve Young
**Ffotograffau eraill:** Lorna Jenner



Cynhyrchwyd y llyfryn hwn gan y gymuned leol i ddathlu treftadaeth gyfoethog ddiwylliannol a naturiol yr ardal hon. Diolch o galon i bawb a ddarparodd ffotograffau neu a rannodd eu hatgofion a'u gwybodaeth, ac i staff a disgyblion iau Ysgol Nercwys. Gellir llwytho'r llyfryn hwn i lawr o'r wefan www.cadwynclwyd.co.uk neu www.flintshire.gov.uk/tourism

Cadwyn Clwyd — Asiantaeth Datblygu Gwledig / Rural Development Agency
Bryniau Clwyd / Clwydian Range
Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cynulliad Cymru / Welsh Assembly Government

# Drwy'r Oesoedd



**2000 -1000BC**
*Teuluoedd Oes yr Efydd yn dod i fyw i'r ardal ac yn creu crug claddu islaw Mynydd Nercwys.*





**1250-80**
*Tybir i'r eglwys gael ei sefydlu. Y cerrig cerfiedig Canoloesol o'r cyfnod hwn.*





**1637**
*Dechrau adeiladu Plas Nercwys.*


**1664**
*Y cofnod cyntaf o ysgol yn Nercwys.*



**1828**
*Adeiladu Capel Soar, y capel cyntaf o dri yn y pentref.*



**1840 - 1896**
*Mwyngloddio ar ei anterth o gwmpas Nercwys.*



**1855 -1930**
*Cloddio am lo yn yr ardal.*

**1869**
*Cwmni Glofa Nercwys yn adeiladu lein gangen i Goed Talon i wasanaethu'r glofeydd a'r gwaith olew.*



**1872**
*Symud Ysgol Nercwys i adeilad newydd.*



**1883**
*Adnewyddu'r eglwys bresennol.*

**1930**
*Cau'r pwll glo olaf.*



**1963**
*Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn plannu Coed Nercwys.*


**1963**
*Cau'r rheilffordd*



Bryniau Clwyd
Clwydian Range

**1985**
*Dynodi Bryniau Clwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol*

**1995**
*Datblygu Grîn y Pentref a'r llain fowlio.*




**2004**
*Datblygu teithiau cerdded drwy Goed Nercwys.*





# Trin y Garreg


Anodd dychmygu'r dyddiau hyn bod yr ardal wledig hon yn ganolfan diwydiant yn y 19eg ganrif, yn dilyn gwelliannau technolegol y Chwyldro Diwydiannol.

Yn y calchfaen ar gyffiniau gorllewinol a deheuol y pentref roedd gwythiennau o blwm. Agorodd nifer o gloddfeydd gerllaw - dangosir tua 30 o siafftiau ar hen fapiau'r ardal - ond nid oedd yr enillion ar y buddsoddiadau'n fawr bob amser am fod angen gwaith diddiwedd i gadw'r dŵr allan. Yn 1876 darganfuwyd gwythïen gyfoethog o blwm a gwnaed gwaith draenio gan sicrhau bod cloddfa Dwyrain Pant Du yn gwneud elw am rai blynyddoedd.

Pan ddarganfuwyd dyddodion cyfoethog o siâl a glo ar ochr ddwyreiniol y pentref, datblygodd cloddio am lo yn ddiwydiant pwysicaf yr ardal. Sefydlwyd nifer o weithfeydd brics hefyd yn ymyl y pyllau glo gan ddefnyddio'r clai tân oedd i'w gael o gwmpas y gwythiennau glo. Mae clai tân yn gallu gwrthsefyll tymheredd uchel, cafodd ei ddefnyddio i wneud brics ffwrneisi yn ogystal â phibellau a theils.

Yn y 1850au adeiladodd The Nerquis Colliery Company lein rheilffordd i gysylltu â'r rheilffordd oedd eisoes yn bodoli yng Nghoed Talon ac yn gymorth i'r diwydiannau oedd yn datblygu. Ar anterth y rheilffordd, roedd hyd at naw trên yn rhedeg bob dydd gan wasanaethu chwe glofa, tri gwaith olew a dau waith brics. Denodd y rheilffordd ddiddordeb y cwmnïoedd rheilffordd mawr a chafodd ei meddiannu gan LNWR.





# Olew a Glo Sir y Fflint



Mae nifer o fathau gwahanol o lo yn cael eu cloddio'n lleol. Y glo agosaf at yr wyneb oedd y 'glo mên' a ddefnyddiwyd i yrru locomotif ac yn y cartref. Yn ddyfnach o lawer o dan y ddaear oedd y gwythiennau o'r 'glo cannel' a oedd yn llosgi'n araf a'r fflam yn gyson. Roedd y math hwn o lo yn werthfawr am fod modd ei ddistyllu i gynhyrchu olew lampau. Sefydlwyd nifer o weithfeydd olew yn ymyl y pyllau glo ac roedd yn fusnes llewyrchus dros ben am nifer o ddegawdau. Roedd olew Sir y Fflint yn goleuo rhan fawr o Brydain. Pan roedd y gwaith olew ar ei anterth, fe godwyd dros fil o retortâu i gynhyrchu olew yn ardaloedd Coed Llai a Choed Talon. Byddai'r ardal hon yn edrych yn wahanol iawn yr adeg honno o gymharu â'r fro dawel sydd yma heddiw.

*"Twas as if I had fallen asleep on the train at Chester and woken up among the 'oil wells' at Enniskien (West Canada) or Pennslyvania."*

Dyfyniad o 'Petroleum in Flintshire' yn Rylands Iron Trade Review Circular, 1864

Ond nid oedd pob un o'r glofeydd mor llwyddiannus. Gwariodd perchennog Pyllau Hendre, John Thompson, £30,000 ar waith arbrofol yn suddo siafftiau dyfnion ac yn gosod milltiroedd o drac rheilffordd ond ychydig iawn o lo a ddarganfuwyd ac roedd rhaid iddo gydnabod ei fod wedi methu.



*Yr hen lein reilffordd*

Mewnforio olew rhad o'r meysydd olew yng Ngogledd yr America a laddodd ddiwydiant olew Sir y Fflint ar ddiwedd y ganrif. Dioddefodd glofeydd Nercwys hwythau a chau bob yn un. Bu ychydig o gloddio ar raddfa fach i mewn i'r ugeinfed ganrif, gan gynnwys cloddio lefelydd







a allai dynnu'r glo oedd yn agos at yr wyneb. Caeodd pwll glo olaf Nercwys yn llwyr yn 1930.

Roedd bywyd y glowyr yn fywyd anodd am fod gwaith o dan y ddaear yn beryglus, y cyflog yn isel, damweiniau'n digwydd, a gallai'r dynion gael eu hanfon adref ar fyr rybudd.

*"Ar rai o'r ffyrdd bach mae'r lluwchfeydd rhwng chwech ac wyth troedfedd, ac mae salwch yr anifeiliaid a'r tlodi yma yn ofnadwy. Dim ond dwy sifft yr wythnos mae'r coliers yn eu gweithio ac mae'r gweithwyr yn cardota.Yn wir,nid yw'r drws yn rhydd am un awr."*

Mrs Jane Hughes, Plas Onn, 31 Ionawr 1895

I ychwanegu at y cymorth a roddodd y tirfeddianwyr cyfoethog, sefydlwyd The Nercwys Friendly Society yn y flwyddyn 1827 er mwyn rhoi cymorth mewn cyfnodau o waeledd ac mewn henaint. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn y White Lion a chodwyd arian drwy daliadau aelodaeth. Roedd y Gymdeithas yn chwarae rhan allweddol yn y gymuned ac yn cynnal cyfarfod a gorymdaith flynyddol a oedd wrth fodd y pentrefwyr.



*Gorymdaith y Gymdeithas Gyfeillion*






# Trin y Tir

Bu amaethu'n rhan bwysig o waith y pentref erioed, a hyd nes i'r mwyngloddiau a'r pyllau agor ar ganol y 19eg ganrif dyna oedd prif waith yr ardal. Yn 1801, roedd 126 o frodorion yn cael eu cyflogi mewn amaethyddiaeth, a saith yn unig mewn gwaith neu grefftwaith arall.

Ym mhridd ffrwythlon Dyffryn Terrig, tyfid ŷd, tatws, glaswellt toreithiog a nifer o gnydau eraill. Ar y mynydd grug a glaswelltir garw Mynydd Nercwys roedd y tir yn salach ac yn cael ei osod ar gyfer pori i nifer o'r ffermydd lleol. Adlewyrchir hyn yn yr enw arall arno - 'Mynydd y Bugail'.

Y stadau mawr oedd perchnogion y rhan fwyaf o'r tir, yn enwedig Plas Nercwys, Plas Ucha a Phlas Onn; tenantiaid oedd ar y ffermydd. Yn yr ugeinfed ganrif, gwerthwyd rhan helaeth o dir y stadau ac wedyn roedd y tenantiaid yn gallu prynu'u ffermydd.





Ar adegau prysur fel y cynhaeaf, lladd gwair, a phlannu tatws, byddai'r ffermwyr eraill a'r cymdogion yn dod at ei gilydd i rannu'r gwaith. Yn ôl cofnodion yr ysgol, roedd y plant hwythau'n cymryd rhan hefyd.

*July 19th  Children working in the hay*

*July 27th Meagre attendance, whinberry gathering at Mynydd Du.*

*Oct 25th Boys potato picking*

Allan o lyfr Cofnodion yr Ysgol 1872







Sefydlwyd Ffatri Caws Nercwys yn 1919 mewn hen dy injan y pwll glo yn ymyl Fferm Waun. Byddai ffermwyr y fro yn dod â'u llefrith mewn trol a cheffyl i'r ffatri i'w droi'n gaws. Yna roedd y llefrith yn cael ei gynhesu mewn fatiau ac ychwanegu cawsiad ato i wahanu'r ceuled oddi wrth y maidd. Prynai'r ffermwyr y maidd i roi i'w hanifeiliaid, a rhoddwyd y ceuled mewn fatiau pren a'i gywasgu i ffurfio cosyn o gaws. Rhedodd y ffatri'n llwyddiannus am dros ddeg mlynedd gan gyflogi merched lleol ac roedd yn ffordd dda i'r ffermydd llefrith lleol werthu'u cynnyrch.



*"Roedd cyfnod y cynhaeaf gwair yn y 1930au yn adeg prysur iawn, ac roedd angen nifer o ddwylo ychwanegol, yn arbennig i roi'r gwair yn fwdwl mawr â phicffyrch. Roedd yr holl deulu'n mynd ati i helpio, a gweithwyr dros dro oedd yn goliers allan o waith ar y cyfan. Roedden nhw'n gryf ac yn barod ond wedi arfer gweithio o dan y ddaear efo pîg a rhaw a ddim yn fedrus iawn gyda phicfforch - roedd angen sefyll yn ddigon pell!"*

Thos Roberts, Hendre Isa

## Gefail Nercwys

Mae'r efail dros 300 mlwydd oed. Yr un teulu sy'n ei rhedeg am o leiaf pum cenhedlaeth. Yn yr 19edd ganrif roedd y gof yn ŵr pwysig yn y pentref, ac yn wr angenrheidiol i hogi offer a phedoli ceffylau'r ffermydd. Aeth y gwaith ar i lawr ar ôl i'r pyllau gau ac ar ôl i dractorau gymryd lle'r ceffylau. Ond daeth y cynnydd mewn marchogaeth am bleser â gwaith newydd. Mae'r gof presennol, Ian Hughes, yn teithio ymhell ac agos gan weithio gyda cheffylau rasio a phedoli ar gyfer cystadlaethau rhyngwladol.



# Bywyd Bob Dydd



Edward Buxton, postmon y pentref, tua 1930au

Hyd nes i lawer o bobl fod â char yn y 1960au, ychydig o bobl oedd yn gallu teithio ymhell o'r pentref ac roedd y rhan fwyaf o nwyddau i'w cael mewn siopau lleol. Roedd pob siop yn gwerthu nwyddau tebyg - fel bwydydd, fferins, baco, paraffin a chanhwyllau, llestri, mopiau, rhawiau a bob math o nwyddau i'r cartref.



*Y Swyddfa Bost olaf*


*"Pan roeddem yn ein harddegau yn y 40au,byddem weithiau'n mynd ar y bws i'r Wyddgrug am y noson ac yn mynd i ddawnsio yn yr Assembly Hall. Roedd rhaid inni gerdded adre'n aml iawn am fod y bws olaf yn gadael mor gynnar!"*

Norma Evans

Roedd Swyddfa'r Post a Siop Griffith, y naill a'r llall, yn School Terrace; aethant yn un siop yn nes ymlaen. Byddai'r plant ysgol yn mwynhau prynu gwerth dimai o fferins gan yr hen Mr Griffiths ar ôl ysgol. Nathan Roberts oedd yn rhedeg y siop groser am ddeugain mlynedd o 1940, ac mae nifer yn cofio'i wasanaeth dosbarthu trylwyr ar hyd a lled y plwyf.

Roedd Siop y Capel, fel y awgryma'r enw, y drws nesaf i Gapel Soar hyd nes iddi gau yn 1956. Caeodd Tŷ Cerrig, a alwyd yn Siop Dorothy a siop Challoner Hendre Foilen, yn y 1960au. Roedd y Llythyrdy yn Meadow Place, a chaeodd hwnnw yn y 1990au.

Pan ddaeth gwasanaethau bysiau rheolaidd roedd mwy o gyfle i weithio, siopa a hamddena. Roedd y bysiau dan eu sang ar ddiwrnod marchnad ac yn gyfle i'r pentrefwyr fynd i ddawnsio neu i'r sinema gyda'r nos.




*Siop Griffith, School Terrace*

Roedd tai newydd a chanol y pentref yn derbyn dŵr tap a thrydan cyn yr Ail Ryfel Byd. Cyn hynny, lampau olew oedd yn goleuo'r tai a'r dŵr yn cael ei gasglu o'r ffynhonnau, y tarddellau a'r afon.

*"Y ffermydd y tu allan oedd yr rhai olaf i gael trydan. Chawsom ni ddim trydan ym Mhen yr allt tan y 1960au."*

Winifred Griffiths



*"Yn y 1930au, ar eu ffordd i'r ysgol roedd rhai o'r plant yn dod â llestri cario dwr i dap y pentref, a'u gadael er mwyn eu llenwi ar ôl ysgol a mynd â nhw adre i'r teulu."*

Ray Davies



Yn 1882 roedd dŵr yn dod drwy bibell o ffynnon yn ymyl fferm Pant y Betws i ganol y pentref, ariannwyd gan y teulu Fletcher o Blas Nercwys. Byddai'r bobl leol yn casglu dŵr o bibell sefyll.

Bu o leiaf tair tafarn yn y pentref. Mae Tafarn y Feathers yn dy preifat ers talwm, ond cyn hyn roedd hi'n dafarn wrth ochr y ffordd. Caeodd y White Lion yng nghanol y pentref yn ddiweddar, mae'n dafarn o'r 18fed ganrif ac yn galon y pentref ar un adeg. Enwyd The Butchers Arms sy ar gyrion y pentref, ar ôl siop y cigydd oedd ar y safle yn yr 1800au. Yr un teulu fu'n ei rhedeg ers dros ganrif, ac mae'n lle poblogaidd i'r bobl leol a'r ymwelwyr hyd heddiw. (Ffôn- 01352 752514 i gael yr oriau agor).



*The Butchers Arms*




*Hen Dafarn y Plu*

# Capel ac Eglwys

Ceir y cofnod cyntaf at eglwys yn Nercwys mewn dogfen drethu yn 1291 pan roedd yn gapel anwes y fam eglwys; Eglwys y Santes Fair yr Wyddgrug. Y rhan o gwmpas gwaelod y tŵr yw'r rhan hynaf, lle mae'r bwa Normanaidd yn amlwg. Daethpwyd o hyd i nifer o ddarnau o gerrig cerfiedig o ganol y 13eg ganrif hefyd. Gosodwyd y rhain yng nghyntedd y de erbyn hyn.



Y nodwedd Ganoloesol fwyaf neilltuol yw Cadair Fair, sy'n gadair a gerfiwyd yn goeth ac a baentiwyd yn gyfoethog ar ochr dde'r allor. Yn wreiddiol, roedd y gadair yn rhan o groglen oedd yn gwahanu'r eglwys oddi wrth y gangell.



Yn y flwyddyn 1874 newidiwyd ac ehangwyd yr eglwys yn fawr, ac eto yn 1883. Defnyddiwyd arian rhoddion lleol, yn enwedig cyfraniadau perchnogion y stadau mawr a dalodd am nifer o nodweddion fel y ffenestri lliw. Ceir placiau a chofebion er cof amdanynt yn nifer o'r ffenestri hyn.

Nid pawb oedd yn dewis addoli yn Eglwys y Plwyf. O ddiwedd y ddeunawfed ganrif, roedd pregethwyr yn teithio drwy ogledd Cymru ac yn denu nifer fawr o bobl i wrando ar eu pregethau brwd. Apeliodd yr addoli anghydffurfiol syml hwn, a gynhaliwyd yn y Gymraeg, at rai o'r brodorion. I ddechrau, roedd John Davies ac ychydig o Fethodistiaid eraill



Nercwys yn cerdded yn rheolaidd i'r Wyddgrug ac wedyn penderfynu codi capel yn Nercwys, a noddwyd gan Fethodistiaid lleol.



Cwblhawyd Capel Soar a'i agor ym mis Hydref 1828, ychwanegwyd y tŷ capel yn ddiweddarach. Parhaodd yr aelodaeth i dyfu ac adnewyddwyd y capel a'i ehangu yn 1874.



*Capel Soar*

Mae Capel Soar yn dal i ffynnu hyd heddiw, ac yn ganolfan y gymuned Gymraeg yn Nercwys. Dymchwelwyd tŷ'r capel yn 1982 i wneud lle i'r ystafell ysgol newydd. Mae'r ystafell yn cael ei defnyddio'n dda gan aelodau'r capel ac yn lleoliad i ddigwyddiadau a chyfarfodydd eraill.

*" Bob dydd Sul, roeddem yn mynd i'r eglwys yn y bore efo Mam ond i'r Ysgol Sul yng Nghapel Soar yn y prynhawn."*

Winifred Griffiths

Bu cerddoriaeth yn rhan bwysig iawn o fywyd crefyddol a chymdeithasol y pentref erioed. Yn y 1950au, roedd gan Gapel Soar barti cerdd dant ffyniannus, parti meibion - Hogiau Glannau Terrig - a pharti merched - Parti Merched Glannau Terrig - oedd yn cystadlu mewn eisteddfodau ledled Cymru.

Mae côr yn yr eglwys ac yn y capel, ac mae'r cyngherddau'n cael cefnogaeth dda bob amser. Ceir perthynas gyfeillgar rhwng y ddau gôr, a chantorion y naill a'r llall yn cyfnewid bob Nadolig.

*"Pan roeddwn i'n blentyn, roeddwn i wrth fy modd yn mynd i gyfarfodydd y Band of Hope yn y capel un noson bob wythnos i ddysgu canu ac i gyfarfod â ffrindiau. Doedd dim llawer o bethau i bobl ifanc wneud y dyddiau hynny, ac roeddwn i wastad yn edrych ymlaen at fynd."*

Norma Evans



# Dyddiau Ysgol

Ysgol elusennol oedd yr ysgol gyntaf. Noddwyd gan gymwynaswyr lleol oedd â diddordeb mewn cynnig addysg Gristnogol i blant tlawd. Ceir y cofnod cyntaf o gymwynaswyr yr ysgol yn 1664, sef Griffiths Roberts, ac wedyn Catherine Wenlock o Dreffynnon yn 1708. Yng nghanol y 1700au talodd Mrs Hyde o Blas Nercwys am adeiladu tŷ ysgol a dwy ystafell ddosbarth, parhaodd ei holynwyr i gefnogi'r ysgol.

Pan agorodd y gweithfeydd, cododd nifer y disgyblion ac roedd yr ysgol yn orlawn. Adeiladwyd Ysgol y Wladwriaeth newydd ar ddarn o dir roddodd Mr Lloyd Fletcher, Plas Nercwys. Agorodd yr ysgol yn 1872. Mae'r ysgol yn dal i gael ei chynnal yn yr adeilad hwn hyd heddiw.

Newidiodd y dulliau dysgu yn aruthrol. Mae nifer o'r hen ddisgyblion yn disgrifio pa mor llawdrwm oedd yr athrawon, ond mae gan y rhan fwyaf atgofion melys. Mae ysgol Nercwys heddiw yn lle hapus ac yn llawn o chwerthin, a'r plant yn derbyn disgyblaeth mewn ffordd wahanol iawn.



*"Tarodd y prifathro fi'n galed ar gefn fy mhen am ei fod yn meddwl fod fy llun i o ddaffodil ddim yn ddigon da. Tarodd fy mhen yn erbyn y ddesg ac aeth fy naint drwy fy ngwefus! Roeddwn yn waed i gyd, ond anwybyddodd o fi, a dal i ddysgu!"*

Ray Davies, disgybl yn Ysgol Nercwys, 1928-1934

*"Roedd Miss Morgan yn athrawes garedig iawn. Byddai'n twymo'r coco inni ar y tân ac yn mynd â ni ar hyd y lôn i ddysgu am natur."*

Winifred Griffiths, disgybl yn Ysgol Nercwys, 1926- 1932

*"Os ydyn ni'n blant drwg, rhaid inni golli un munud o'r Awr Aur ar brynhawn Gwener, a rhaid inni eistedd yn dawel ar ein pen ein hun yn lle chwarae efo'r plant eraill. Does neb isio i hynny ddigwydd iddyn nhw."*

Tilly Horrigan, disgybl yn Ysgol Nercwys 2010

*"Roedden ni'n arfer â cherdded i chwarae yn erbyn ysgol Gwernymynydd a Threuddyn. Doedd dim dillad pêl- droed gynnon ni, ac roedden ni'n gwneud y gôl efo'n cotiau."*

Ray Davies



*Tîm Pêl-droed Ysgol Nercwys, 2010*

Er bod yr adeilad wedi'i foderneiddio a'r dull o ddisgyblu wedi newid, mae nifer o bethau'n dal yn debyg. Mae disgyblion hen a newydd yn sôn yn eiddgar am dîm pêl droed yr ysgol, ond mae'r offer wedi gwella'n arw dros y blynyddoedd!



Yn 1927, dechreuodd y prifathro newydd ddosbarth garddio i'r bechgyn hŷn. Mae llawer o gyn-ddisgyblion yn cofio'r dosbarth yn amser gorau'r wythnos. Adnewyddodd Ysgol Nercwys yr ardd ac yn y gwanwyn 2010, roedd hi'n rhan boblogaidd o fywyd yr ysgol unwaith eto.



*Roedd ein hen ewyrth, Ken Lewis, wrth ei fodd yn tyfu llysiau yng ngardd yr ysgol, ac rydym ninnau'n mwynhau gwneud yr un fath heddiw.*

Celyn a Gwyneth Parry



*Disgyblion iau gyda Ray Davies, Winifred Griffiths a Norma Evans*



# Lle i fywyd gwyllt



*Titw penddu*

Saif pentref Nercwys ar ffiniau'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd (AHNE), a ddynodwyd yn 1985 i gydnabod pwysigrwydd y dirwedd yn genedlaethol. Dyma un o'r wyth o dirweddau a ddiogelir yng Nghymru, pump yn AHNE a Thri Pharc Cenedlaethol. Gwelir cefnen hardd Bryniau Clwyd o rannau gwahanol y plwyf, yn arbennig o Fynydd Nercwys. Oherwydd y rhwydwaith da o lwybrau troed a lonydd tawel, gellir darganfod yr ardal hardd a thawel hon yn hwylus.



Ar ymylon y tir ffermio tonnog sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o'r plwyf mae gwrychoedd aeddfed yn tyfu, ac ymylon y ffyrdd yn frith o flodau gwyllt. Ar ochr ddwyreiniol y pentref, disgynna'r tir i lawr i'r Afon Terrig a'i chwm coediog. Yn aml iawn, gwelir bronwen y dŵr - aderyn brown efo bron wen - yn hela am bryfed ar hyd yr afon chwim hon. Gwelwyd dyfrgwn yn ymyl yr Afon Cegidog ac mae'n bosib eu bod wedi dod yn ôl i gwm yr Afon Terrig.

Tua'r gorllewin, mae'r tir yn codi'n raddol i Fynydd Nercwys a oedd yn rhostir ar un adeg ond sy'n rhannol goediog erbyn hyn. Yn 1963 plannwyd y mynydd â choed coniffer yn rhan o'r ymgyrch wladol i fod yn fwy hunangynhaliol mewn coed ar ôl y prinder yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Y dyddiau hyn, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Bryniau Clwyd AHNE sy'n rheoli Coed Nercwys am y bywyd gwyllt ac am hamdden, yn ogystal â chynhyrchu coed. Gwnaed llawer iawn o waith i wella'r goedwig ar gyfer y bywyd gwyllt drwy greu cynefinoedd sy'n fwy amrywiol. Cliriwyd clytiau o dir gan greu lleiniau agored o laswelltir sy'n denu'r adar sy'n nythu ar y ddaear, y blodau a'r gloÿnnod byw.





*Troëllwr*

Yn aml iawn gwelir heidiau o adar titw a llinos yn gwibio rhwng y coed, yn enwedig y pila gwyrdd a'r titw penddu. Mae hadau'r coed coniffer yn fwyd pwysig yn y gaeaf ac mae llawr y goedwig yn llawn o foch coed wedi hanner eu bwyta, gan gynnwys rhai a gafodd eu stripio gan y gylfingroes. Un ymwelydd haf hynod yw'r troellwr sy'n magu yn y lleiniau agored yn y goedwig. Edrychwch amdanyn nhw gyda'r hwyr a gwrandewch am y sŵn sydd fel injan fach yn refio - efallai mai o sŵn hen droell nyddu y daw enw'r aderyn.



*Pila gwyrdd*

Ceir llwybr pob-gallu gwych yng Nghoed Nercwys ar gyfer cerddwyr, beicwyr a phobl ar gefnau ceffylau. Mae digon o lwybrau a ffyrdd eraill i'w cerdded yn y coed hefyd. www.clwydianrangeaonb.org.uk



*Bronwen y dŵr*